

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn un o blith 47 o Ymddiriedolaethau Natur ledled y DG ac yn un o blith y 6 Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig, yn dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn:

- buddsoddi yn y dyfodol drwy helpu pobl o bob oed i werthfawrogi a deall bywyd gwylt yn well
- prynu a rheoli gwarchodfeydd natur
- ymgymryd â phrosiectau sydd o fudd i fywyd gwylt mewn trefi ac yng nghefn gwlad
- herio datblygiadau sy'n bygwth cynefinoedd bywyd gwylt
- gweithio gyda'r cyhoedd, cymunedau, perchnogion tir, cynghorau lleol ac eraill i warchod bywyd gwylt ar gyfer y dyfodol.

Os hoffech helpu i gefngoi cadwraeth bywyd gwylt drwy ddod yn aelod neu'n wirfoddolwr, neu os hoffech wybodaeth am warchodfeydd natur lleol, cysylltwch â:

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

Pencadlys ac Aelodaeth

376 Stryd Fawr
Bangor

Gwynedd LL57 1YE

01248 351541

e-bost: nwwt@cix.co.uk

Swyddfa G.Dd.Cymru

Parc Gwledig Tafarn-y-gelyn
ger Yr Wyddgrug

Sir Ddinbych CH7 5LH

01352 810469

e-bost: nwwte@cix.co.uk

www.wildlifetrust.org.uk/northwales

The North Wales Wildlife Trust is one of 47 Wildlife Trusts across the UK and one of 6 Welsh Wildlife Trusts.

We are a registered charity, dependent on the support of our members and donations.

The North Wales Wildlife Trust

- invests in the future by helping people of all ages to gain a greater appreciation and understanding of wildlife
- acquires and manages nature reserves
- undertakes projects to benefit wildlife in towns and countryside
- challenges developments which threaten wildlife habitats
- works with the public, communities, landowners, local councils and others to protect wildlife for the future

If you would like to help support wildlife conservation by becoming a member or volunteer, or would like information about local nature reserves, please contact:

North Wales Wildlife Trust

HQ & Membership

376 High Street
Bangor

Gwynedd LL57 1YE

01248 351541

email: nwwt@cix.co.uk

North East Wales Office

Loggerheads Country Park
nr. Mold

Denbighshire CH7 5LH

01352 810469

email: nwwte@cix.co.uk



Ymweld â'r Warchodfa

Mae'r warchodfa wedi'i lleoli 2 filltir i'r de-orllewin o Llanfannan (SH914 633). O Llanfannan, cymerwch y B5384, dilynwch yr arwydd am Wytherin, cymerwch yr ail ar y chwith, gan fynd dros grid gwartheg, a pharcio yn y cilfan ar y dde (cyn cyrraedd y trac lleidiog ar y chwith a'r grid gwartheg nesaf). Cerddwch ar draws y cae ar y chwith drwy'r giât mochyn. Dilynwch linell yr hen wrych (clawdd wedi'i godi) ar y chwith i chi i gyrraedd y warchodfa. **Peidiwch â cherdedd dros y gors, yn arbennig yr ardaloedd gwlyb.** Mae Sphagnum yn cymryd blynyddoedd i adfer wedi cael ei sathru. Cadwch at y llwybr a chadwch gŵn dan reolaeth. Byddwch angen esgidiau addas, esgidiau cerdded cryf neu esgidiau glaw. Cymerwch ofal wedi iddi fwrw, fe all y safle fod yn wlyb iawn. Nid yw'r warchodfa'n addas ar gyfer cadeiriau gwrthio na chadeiriau olwyn.

Visiting the Reserve

The reserve is situated 2 miles SW of Llanfannan (SH914 633). From Llanfannan take the B5384, follow the sign to Gwytherin, take the second left, pass over one cattle grid and park in the lay-by on the right (just before the dirt track on the left and the next cattle grid). Walk across the field on the left and through the kissing gate. Follow the old hedge line (raised bank) on your left to reach the reserve. **Please avoid walking over the bog, especially in wet areas. Spagnum takes many years to recover from trampling. Please keep to the path and keep dogs under control. You will need suitable footwear, stout walking boots or wellies. Take care after rain as the site may be very wet. The reserve is not suitable for pushchairs or wheelchairs.**

Cynllun y mapiau a'r dafien gan
Lin Cummins 07792 535317.
Lluniau gan Sarah Lees.
Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%.

Maps and leaflet design by
Lin Cummins 07792 535317.
Illustrations by Sarah Lees.
Printed on 100% recycled paper.




Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru

North Wales
Wildlife Trust



Gwarchodfa Natur

Blaen-y-Weirglodd Nature Reserve



Gwarchod Natur ar gyfer y Dyfodol
Protecting Wildlife for the Future

Gwarchodfa Natur

Blaen-y-Weirglodd

Mae Blaen-y-Weirglodd yn gors fawn sy'n ddeg erw o faint ger Llansannan. Mae'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn gynefin a arferai fod yn gyffredin yng nghymoedd Cymru. Mae'r mawn wedi ffurfio o ganlyniad i'r sylwedd organig sy'n crynhoi mewn dŵr ar dir gwlyb. Mae'r clai oddi tan y mawn wedi atal y safle rhag sychu.

Cyflwynwyd Blaen-y-Weirglodd i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru gan Michael Griffith yn 1988, i'w reoli fel gwarchodfa natur. Mae pori ysgafn yn atal y prysgwydd rhag ymledu ac yn cadw'r safle'n agored. Gydag amseru a lefelau stoc priodol, nid oes angen unrhyw waith rheoli.

Amgylchynir y cae gan gloddiau o dir a cheir sawl ffos ac ardaloedd o ddŵr agored yma. Cloddiwyd y ddwy brif ffos drwy ganol y safle yn ystod y rhyfel, a nawr maent yn llawn gwaddodion.


Blaen-y-Weirglodd Nature Reserve

Blaen-y-Weirglodd is a ten-acre peat bog near Llansannan. It is a Site of Special Scientific Interest and is a habitat which was once common in the valleys of Wales. Peat has formed as a result of build up of organic matter which occurs in waterlogged conditions; clay lying beneath the peat has prevented this site from drying out.

Blaen-y-Weirglodd was given to the North Wales Wildlife Trust by Michael Griffith in 1988, to be managed as a nature reserve. Light grazing prevents scrub encroachment and keeps the site open. With the correct timing and stock levels there is no other management necessary.

The field is surrounded by earth banks and there are several ditches and areas of open water. The two main ditches through the middle of the site were dug during the war and are now silted up.

Gwas y Neidr Eurdorchog
Golden Ringed Dragonfly



Gall pawb helpu i warchod ardaloedd llawn rhywogaethau fel Blaen-y-Weirglodd drwy wrthod prynu compost gyda mawn yn sylfaen iddo, neu phlanhigion a hadau wedi'u tyfu mewn compost mawn. Gallwch dderbyn taflen wybodaeth am ble i brynu cynhyrchion di-fawn drwy fynd am dro i'n gwefan yn www.wildlifetrust.org.uk/northwales neu drwy ffonio 01248 351541.

Everybody can help to conserve species rich areas like Blaen-y-Weirglodd by refusing to buy peat-based compost, or plants and seeds grown in peat compost. You can obtain a leaflet with information on where to buy peat-free products by visiting our website at www.wildlifetrust.org.uk/northwales or by telephoning 01248 351541.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

Gwarchodfa Natur

Blaen-y-Weirglodd

Cynefinoedd

Ceir amrywiaeth rhyfeddol o gynefinoedd yn y warchodfa. Ceir newidiadau mewn llystyfiant gydag amrywiaeth yn nyfnder y mawn a lefel y dŵr. Cornel ogledd-orllewinol y warchodfa, cors ar godiad tir, sydd fwyaf diddorol o ran botaneg, gyda chasgliad amrywiol iawn o Figwyn a phlanhigion eraill y gors. Mae'r ardaloedd sychach, ble mae'r mawn yn fasach, yn troi'n rhostir gwlyb ac mae rhan ddeheuol y safle'n llawn Gwellt y Gweunydd. Ar y pridd o fwynau i'r gorllewin, brwyn a glaswellt a geir yn bennaf.

Planhigion

Ceir rhyw chwe amrywiaeth o figwyn ar y gors, yn cynnwys *Sphagnum Magellanicum*. Ymhlith y planhigion eraill sy'n ffynnu gyda'r mwsogl sy'n ffurfio mawn mae Llafn y Bladur (*Narthecium ossifragum*), sy'n troi'n felyn ac yna oren wrth i'r tymor blodeuo fynd rhagddo, a Chwys yr Haul (*Drosera rotundifolia*), sy'n hoff o bryfed. Mae'r rhan fwyaf o'r planhigion glaswelltlog a geir yn yr amodau gwlyb ac asidig hyn yn hesg, yn cynnwys Hesg Seraidd (*Carex echinata*) a'r Hesg Ysgar prin (*Carex dioica*).

Yn y ffosydd a'r ardaloedd o ddŵr agored, mae Hesg Gylfinfain (*C. rostrata*), Ffa'r Gors (*Menyanthes trifoliata*) a Phumbys y Gors (*Potentilla palustris*) yn tyfu.



Yr Ymerawdwr – Gwas y Neidr
Emperor Dragonfly

Plu'r Gweunydd sy'n rhoi lliw coch llachar i'r gors ar derfyn yr haf. Mae Bara'r Cythraul (*Succisa pratensis*), Llaethlys Cyffredin (*Polygala serpyllifolia*), Cribellau Cochion (*Pedicularis syvatica*) a Thresgl (*Potentilla erecta*) yn flodau y ceir hyd iddynt yn y rhannau sychach o'r gors ac ar dwmpathau. Maent yn arwydd o borfa heb ei gwella ac yn gallu dioddef yr asid yn y pridd.

Anifeiliaid

Mae glaswellt garw'r ucheldir a chorsydd yn bwysig i adar fel y Gylfinir, y Giach Gyffredin a'r Gornchwiglen, a fydd yn magu o bosibl os yw'r cynefin hwn yn helaeth. Mae Blaen-y-Weirglodd yn rhy fach i fod yn gartref i boblogaeth fagu o adar rhydio, ond gwelir Giach y Gaeaf yma'n rheolaidd. Mae Ysgyfarnogod i'w gweld yma hefyd, am eu bod angen llystyfiant tal ar gyfer cysgod ac i fagu.

Mae'r coed Helyg, Bedw a Chriafol yn llawn adar bach fel y Tingoch, y Gwybedog Brith, y Llinos Bengoch, Llinos a Nico. Mae Corhedydd y Waun i'w weld yma'n aml hefyd. Wrth i'r coed ymledu, mae eu gwreiddiau'n sugno'r dŵr a'u dail, wrth iddynt ymgasglu ar lawr bob blwyddyn, yn sychu'r gors. Y canlyniad yw colli'r Migwyn a dirywiad y gors yn y pen draw.

Mae mwy na 230 math o infertebrata wedi'u cofnodi yn y warchodfa, yn cynnwys rhai rhywogaethau prin. Mae hyn yn adlewyrchu amrywiaeth y cynefinoedd a nifer y planhigion a'r ffwng a ganfyddir ym Mlaen-y-Weirglodd.

Yn anffodus, mae llawer o gorsydd mawn fel Blaen-y-Weirglodd wedi'u colli oherwydd gwelliannau amaethyddol, yn cynnwys gwaith draenio a defnydd o wrtaith. Mae ardaloedd helaeth o'n corydd mawn ar dir isel mewn perygl oherwydd bod y diwydiant garddwriaeth yn defnyddio'r mawn fel compost neu i drin pridd. Mae gan Brydain gyfran helaeth o adnoddau mawndir y byd; mae corydd mawn yn gynefin dan fygythiad rhyngwladol – y rhain yw fforestydd glaw y DG.

Gall pawb helpu i warchod yr ardaloedd hyn drwy wrthod prynu compost gyda mawn yn sylfaen iddo, neu phlanhigion a hadau wedi'u tyfu mewn compost mawn.



Llinos Bengoch
Redpoll

North Wales Wildlife Trust

Blaen-y-Weirglodd

Nature Reserve

Habitats

There is a surprising variety of habitats on the reserve. Changes in vegetation occur with variations in peat depth and water level. The north-west corner of the reserve, a raised bog, is of most botanical interest with a diverse association of Sphagnum mosses and other bog plants. Drier areas, where the peat is shallower, grade into wet heath and the south part of the site is dominated by Purple Moorgrass. On the mineral soil to the west, rushes and grasses predominate.

Plants

The bog has about six varieties of Sphagnum, including the rare *Sphagnum Magellanicum*. Other plants which thrive are Bog Asphodel (*Narthecium ossifragum*), turning yellow to orange as the flowering season progresses, and the insectivorous Round-Leaved Sundew (*Drosera rotundifolia*). Most of the grass-like plants found in these wet, acid conditions are the sedges including Star Sedge (*Carex echinata*) and the rare Dioecious Sedge (*Carex dioica*).

In the ditches and areas of open water, Bottle Sedge (*C. rostrata*), Bog Bean (*Menyanthes trifoliata*) and Marsh Cinquefoil (*Potentilla palustris*) grow. It is Cottongrass which gives the bog its bright red colour in late Summer. Devil's-bit Scabious (*Succisa pratensis*), Common Milkwort (*Polygala serpyllifolia*), Lousewort (*Pedicularis syvatica*) and Tormantil (*Potentilla erecta*) are flowers found on drier parts of the bog and on the banks. They are indicators of unimproved pasture and are tolerant of acidity.

Animals

Upland rough grasslands and bog are important for birds such as Curlew, Snipe and Lapwing which may breed where this habitat is extensive. Blaen-y-Weirglodd is too small to support a breeding population of waders, but in Winter Snipe are seen regularly. Hare may be seen as they too need tall vegetation in which to take cover and breed.

The Willow, Birch and Rowan trees are alive with small birds such as Redstart, Spotted Flycatcher, Redpoll, Linnet and Goldfinch. Meadow Pipit are also frequent. If the trees were to spread, their roots soaking up the water and leaf litter building up each year dries out the mire. The loss of Sphagnum and eventual degradation of the mire results.

Over 230 types of invertebrate have been recorded on the reserve, including some rare species. This is a reflection of the diversity of habitat and number of host plant and fungus species found at Blaen-y-Weirglodd.

Sadly, many peat bogs like Blaen-y-Weirglodd have been lost due to agricultural improvement, including drainage and use of fertilisers. Vast areas of our lowland peat-bogs are threatened by the horticultural industry, which uses peat as a compost or soil conditioner. Britain has a large proportion of the world's peatland resources; peat bogs are an internationally threatened habitat and are the 'rain-forests of the UK'.

Everybody can help to conserve these areas by refusing to buy peat-based compost, or plants and seeds grown in peat compost.

